

# ASTUDIAETH ACHOS

## Creu Amgylchedd Mwy Diogel i Deuluoedd

## Cefndir

**Mewn cartref teuluol, mae Jack* yn byw gyda'i fam, sydd ag epilepsi a achosir gan olau, sy'n golygu y gall rhai symbyliadau gweledol, fel goleuadau fflachio, achosi trawiadau.** Mae Jack hefyd yn drwm ei glyw ac mae'n chwarae rôl hanfodol fel gofalwr ifanc, gan helpu i gefnogi ei fam ddydd a nos. Roedd y sefyllfa unigryw hon yn cyflwyno her ddwbl: sicrhau bod modd rhybuddio Jack a'i fam yn ddiogel ac yn ddibynadwy pe bai'r larwm mwg yn cael ei actifadu, a hefyd rhoi ffordd i Jack gael gwybod pan fyddai ei fam angen cymorth, yn enwedig yn ystod y nos, heb ddibynnu ar rybuddion gweledol a allai ei rhoi mewn perygl.

## Ateb

Er mwyn creu ateb diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gosodwyd uned Vibe ac fe'i cysylltwyd â larwm mwg a larwm personol Onyx. Mae'r Vibe yn ddyfais rhybudd synhwyraidd wedi'i chynllunio i roi larwm drwy ddirgryniad, sain ac arwyddion gweledol, gan ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer unigolion â cholled clyw. Yn yr achos hwn, gosodwyd y Vibe i ddefnyddio dim ond ei nodweddion dirgrynol a sain, gan eithrio unrhyw arwyddion gweledol, i sicrhau y gallai'r rhybuddion gael eu cyflwyno'n ddiogel heb achosi trawiad.



Fe'i gosodwyd yn ystafell gwely Jack, gan ei alluogi i gael rhybudd drwy ddirgryniad a sain, hyd yn oed yn ystod y nos. Roedd hyn yn golygu nad yn unig y byddai'n ymwybodol pe bai'r larwm mwg yn cael ei actifadu, ond y byddai hefyd yn cael gwybod pe bai ei fam yn defnyddio'r Onyx i alw am gymorth. Dyluniwyd y system i fod yn syml ac effeithiol, gan gefnogi cyfrifoldebau Jack fel gofalwr ifanc wrth gadw ei fam yn ddiogel rhag symbyliadau golau.

Trwy integreiddio'r larwm mwg a'r Onyx gydag uned Vibe a larwm Teleofal sy'n gysylltiedig â chanolfan fonitro, mae'r gosodiad yn cynnig cysylltiad di-dor rhwng rhybuddion lleol a chefnogaeth ymatebol, gan aros yn sensitif i anghenion penodol y ddau unigolyn yn y cartref.

## Canlyniad

Ers cyflwyno'r system, mae wedi darparu cymorth dibynadwy a hygyrch i'r teulu. Mae Jack bellach yn gallu ymateb yn hyderus i rybuddion brys ac yn helpu ei fam pan fo angen, er gwaethaf ei golled clyw. Gall ei fam nawr alw am gymorth yn ddiogel ac yn ddisylw, heb gael ei hamlygu i oleuadau fflachio. Mae'r ateb wedi dod â thawelwch meddwl i'r ddau, gan gefnogi eu hannibyniaeth a'u llesiant drwy dechnoleg ystyriol ac addas, nad yw'n llethu nac yn cymhlethu bywyd bob dydd.

*Ddim yn enw go iawn

CAIR
**Cair (UK)**
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
**T**: 01422 399 155 **E**: sales@we-cair.com **W**: www.we-cair.com